

COFNODION

CYFARFOD Y CABINET: 19 HYDREF 2023

Yn Bresennol	Y Cyngorydd Huw Thomas (Arweinydd) Y Cyngorwyr Peter Bradbury/Julie Sangani (rhannu swydd)
	Y Cyngorydd Jen Burke Y Cyngorydd Dan De'Ath Y Cyngorwyr Norma Mackie/ Ash Lister (rhannu swydd) Y Cyngorydd Sarah Merry Y Cyngorydd Lynda Thorne Y Cyngorydd Chris Weaver Y Cyngorydd Caro Wild
Arsylwyr:	Y Cyngorydd John Lancaster Y Cyngorydd Rodney Berman
Hefyd:	
Swyddogion:	Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Chris Lee, Swyddog Adran 151 Richard Crane, Cyfreithiwr Claire Deguara, Swyddfa'r Cabinet
Ymddiheuriadau:	Y Cyngorydd Russell Goodway Paul Orders, Prif Weithredwr

COFNODION Y CYFARFOD CABINET A GYNHALIWYD 21 MEDI 2023

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel y'u diwygiwyd.

**CYNLLUNIO TREFNIADAETH YSGOLION: LLEOEDD MEWN YSGOLION
CYNRADD I WASANAETHU CATHAYS A RHANNAU O GABALFA, Y MYNYDD
BYCHAN, YSTUM TAF A PHLASNEWYDD**

Datganodd y Cyngorydd Chris Weaver a Norma Mackie fuddiant personol a rhagfarnol yn yr eitem hon, oherwydd eu bod yn Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Gladstone, gadawodd y Cyngorwyr Weaver a Mackie yr ystafell er mwyn i'r eitem hon gael ei hystyried.

Datganodd y Cyngorydd Burke fuddiant personol yn yr eitem hon, gan fod ei phlant yn mynd i ysgol mewn ward yr effeithir arni.

Datganodd y Cyngorydd Merry fuddiant personol yn yr eitem hon, gan ei bod yn aelod ward dros yr ardal.

Datganodd y Cyngorydd Sangani fuddiant personol yn yr eitem hon, gan ei bod yn aelod ward dros ardal yr effeithir arni.

Cafodd y Cabinet adroddiad yn cyflwyno ymatebion a gafwyd yn dilyn ymgynghoriad ar gynigion ynghylch darpariaeth lleoedd ysgolion cynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Nodwyd bod, ar 23 Mawrth 2023, Cabinet y Cyngor wedi cytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar dri opsiwn i ehangu darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a chyfuno darpariaeth ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i wella'r ddarpariaeth gydbwysedd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd. Derbyniwyd cyfanswm o 213 o ymatebion gan gynnwys 189 trwy'r arolwg ar-lein, 17 o ymatebion ffurfiol a 2 ymateb gan gynghorau ysgol a 5 ymateb dros e-bost.

Amlygwyd y byddai'r newidiadau arfaethedig yn dod i rym o fis Medi 2025, yn amodol ar i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Monica ystyried canlyniad yr ymgynghoriad a'u cytundeb i fwrw ymlaen.

Nodwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Cabinet yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiad a dderbyniwyd, yr ymatebion arfaethedig i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhellion i weithredu'r cynigion neu fel arall, a ffynonellau ariannu ar gyfer y set lawn o gynigion.

PENDERFYNWYD:

1. bod yr ystyriaeth gan Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol, o fis Medi 2025, yn cael ei nodi.
2. Yn amodol ar gytundeb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i fwrw ymlaen i gyhoeddi'r cynigion, bod Swyddogion yn cael awdurdodiad i fwrw ymlaen i gyhoeddi cynigion yn unol ag adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar gynigion i:
 - Drosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank.
 - Cynyddu capasiti Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM), a chynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96.
 - Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone:
 - Cau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol.
 - Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol.
 - Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2DM) gyda dosbarth meithrin ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica a rennir ar hyn o bryd.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

3. Noder, cyn gweithredu'r cynigion, bod yn rhaid nodi adnoddau ariannol i hwyluso proses newid sefydliadol o sefydlu'r ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad newydd a throsglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.
4. Dylid nodi, cyn rhoi'r cynigion ar waith, y bydd adroddiad pellach yn cael ei roi i'r Cabinet yn nodi manylion unrhyw wrthwynebiad a dderbyniwyd, yr ymatebion arfaethedig i'r gwrthwynebiadau hynny ac argymhellion i weithredu'r cynigion neu fel arall, a ffynonellau ariannu ar gyfer y set lawn o gynigion.

CONTRACT LLOGI CERBYDAU FFLYD YN ÔL Y GALW

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth i ddechrau ymarfer caffael ar gyfer llogi cerbydau yn y fan a'r lle drwy Fframwaith Cyflenwi Masnachol Llywodraeth Cymru. Amcangyfrif gwerth y contract yw £6.1m.

Nodwyd bod y Gwasanaethau Trafnidiaeth Canolog (GTC) yn darparu cyfleusterau llogi ar gyfer pob adran ar draws y Cyngor, gwneir hyn ar hyn o bryd gan ddefnyddio fframwaith Llywodraeth Cymru er mwyn dod o hyd i gerbydau llogi lleoedd tymor byr, hyd at uchafswm o 3 blynedd. Ar hyn o bryd mae fflyd y Cyngor yn cynnwys 957 o gerbydau. Mae hyn yn cynnwys 382 o gerbydau ar brydles, 273 yn eiddo a 302 o gerbydau wedi'u llogi yn y fan a'r lle. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am y broses gaffael sydd i'w chynnal.

PENDERFYNWYD:

- 1) bod proses gaffael gofyniad llogi cerbydau Fflyd y Cyngor yn ôl y galw drwy Fframwaith Cyflenwi Masnachol Llywodraeth Cymru (WGCD) ar gyfer darparu cerbydau i'w llogi yn ôl y galw WGCD Cyf: NPS-FT-0110-2 yn cael ei gymeradwyo.
- 2) bod y meini prawf gwerthuso lefel uchel a nodir yn yr adroddiad ar gyfer y dyfarniad uniongyrchol i un cyflenwr ar gyfer lotiau 1 a 2 gyda Lot 3 yn rhedeg fel cystadleuaeth fach pan fydd angen cerbyd o'r math hwn yn cael eu cymeradwyo.
- 3) Bod awdurdod yn cael ei roi i benderfynu ar ac ymdrin â phob agwedd ar y broses gaffael a materion ategol hyd at ac yn cynnwys dyfarnu'r contract i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol.

CAFFAEL TANWYDD HYLIF

Derbyniodd y Cabinet adroddiad yn gofyn am awdurdodiad i ddechrau ymarfer caffael mewn perthynas â chaffael tanwydd hylif ar gyfer y Cyngor. Nodwyd bod y trefniadau blaenorol wedi dod i ben yn ystod y pandemig, a bod trefniadau dros dro

yn dod i ben ar 1 Chwefror 2024. Bydd yr ymarfer caffael, a nodir yn yr adroddiad yn sicrhau bod y Cyngor yn sicrhau pris cystadleuol ar gyfer tanwydd hylif caffaeledig.

Amlygwyd bod y Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddyfodol carbon isel fel y nodir yn Strategaeth Caerdydd Un Blaned, sy'n nodi bwriad y Cyngor i roi'r gorau i gaffael cerbydau sy'n cael eu gyrru gan ffosiliau erbyn 2025, gydag ymrwymiad i fflyd carbon isel erbyn 2030.

PENDERFYNWYD:

- 1) bod y broses gaffael trwy gystadleuaeth fach ar gyfer cyflenwi tanwydd hylif ar gyfer fflyd y Cyngor drwy fframwaith Gwasanaethau Caffael Cenedlaethol WGCD -FT-0122-23 am gyfnod hyd at 12 Ebrill 2027 yn cael ei gymeradwyo.
- 2) Bod y meini prawf gwerthuso lefel uchel a nodir yn yr adroddiad hwn yn cael eu cymeradwyo.
- 3) Bod awdurdod yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, yr Aelod Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a'r Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol i benderfynu ac ymdrin yn gyffredinol â phob agwedd ar y broses gaffael a materion ategol hyd at ac yn cynnwys dyfarnu'r contract.

AILDDATBLYGU BAND B CAMPWS CYMUNEDOL Y TYLLGOED

Mae Atodiadau 2 a 4 yr adroddiad hwn wedi'u heithrio o'u cyhoeddi oherwydd eu bod yn cynnwys gwybodaeth o'r natur a ddisgrifir ym mharagraffau 14 a 21 Rhan 4 o atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac yn holl amgylchiadau'r achos, mae budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn fwy na budd y cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, ac wedi'i eithrio o'i ddatgelu gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth yn unol â pharagraff 16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Datganodd y Cynghorydd Peter Bradbury fuddiant personol yn yr eitem hon fel Llywodraethwr yn Ffederasiwn Dysgu'r Gorllewin.

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn gofyn am awdurdodi cyllid (a amlinellir yn Atodiad 2 Cyfrinachol, yn amodol ar gymeradwyaeth Weinidogol i'r Achos Busnes Terfynol) o Raglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy er mwyn galluogi dechrau'r prif waith sydd ei angen i ddatblygu Campws Cymunedol y Tyllgoed.

Amlygwyd bod Campws Cymunedol y Tyllgoed yn un o'r prosiectau cyfalaf blaenllaw sy'n dod ag Ysgol Uwchradd Cantonian, Ysgol Woodlands ac Ysgol Riverbank at ei gilydd. Bydd y project yn -

- Cynyddu'r ddarpariaeth yn Ysgol Uwchradd Cantonian o 6 dosbarth mynediad (6DM) i wyth dosbarth mynediad (8DM) gyda darpariaeth chweched dosbarth ar gyfer hyd at 250 o ddisgyblion mewn adeiladau newydd;

- Ehangu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) i ddysgwyr sydd â Chyflwr ar y Sbectwm Awtistig (CSA) yn Ysgol Uwchradd Cantonian o 20 i 30 lle mewn llety pwrpasol yn adeiladau newydd yr ysgol;
- Trosglwyddo Ysgol Arbennig Woodlands i safle presennol Cantonian a chynyddu'r capasiti o 140 i 240 o leoedd mewn adeilad newydd; a
- Throsglwyddo Ysgol Arbennig Riverbank i safle presennol Cantonian a chynyddu'r capasiti o 70 i 112 o leoedd mewn adeilad newydd.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd hyd yma ac yn nodi heriau o ran pwysau cyllidebol a chynnydd chwyddiant, yn y cyfarfod nodwyd bod y prosiect wedi sicrhau caniatâd cynllunio.

PENDERFYNWYD:

- (i) yn amodol ar gymeradwyaeth y Gweinidog, awdurdodi'r arian o Raglen Band B Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Cyngor (a amlinellir yn Atodiad 2 sydd yn Gyfrinachol) yr Achos Busnes Terfynol, i gael ei ddefnyddio i alluogi dechrau'r prif waith sydd ei angen i symud ymlaen â Champws Cymunedol y Tyllgoed.
- (ii) nodi'r ymrwymiad a wnaed ar gyfer y gorchmynion gwaith cynnar i symud y prosiect sydd mewn perygl ymlaen cyn ymrwymo i contract.

TENDR AR GYFER POLISI'AU YSWIRIANT Y CYNGOR GAN GYNNWYS YMDRIN Â HAWLIADAU O 1 EBRILL 2024

Mae Atodiadau 1 a 2 yr adroddiad hwn wedi'u heithrio rhag eu cyhoeddi yn dilyn darpariaethau Atodlen 12A Rhan 4 Paragraff 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Ystyriodd y Cabinet adroddiad yn ceisio awdurdodiad i wahodd tendrau ar gyfer adnewyddu polisiâu yswiriant y Cyngor, gan gynnwys trin hawliadau.

Nodwyd iddynt gael eu tendro ddiwethaf yn 2019 am gyfnod o 5 mlynedd ac felly disgwylir iddynt gael eu hadnewyddu y gwanwyn nesaf. Mae'r adroddiad yn manylu ar y meini prawf lefel uchel a ddefnyddir i werthuso ceisiadau a dderbyniwyd ac yn rhoi manylion llawn am y broses gaffael.

PENDERFYNWYD:

1. awdurdodi'r gwahoddiad tendrau trwy DPS Yswiriant YPO ar gyfer polisiâu yswiriant y Cyngor gan gynnwys gwasanaethau Atebolrwydd, Modur, Eiddo ac Amrywiol a delio â hawliadau am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd o 1 Ebrill 2024 gydag opsiwn i ymestyn am gyfnod pellach o hyd at 2 flynedd yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Contractau.
- 2) bod y meini prawf gwerthuso lefel uchel a nodir yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo.
- 3) Bod awdurdod yn cael ei roi i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, i

benderfynu ar ac ymdrin â phob agwedd ar y broses gaffael (yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i ddadansoddiad o'r meini prawf gwerthuso a chyhoeddi dogfennaeth) a materion ategol hyd at ac yn cynnwys dyfarnu'r contract.

ADRODDIAD Cwynion BLYNYDDOL

Derbyniodd y Cabinet yr adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynnyddol ar gyfer y cyfnod 2022-2023. Nodwyd bod cyfanswm o 3,071 o gwynion (Corfforaethol) wedi'u cofnodi. Gostyngiad 15.5% ar y flwyddyn flaenorol. Daeth cyfanswm o 1,265 o ganmoliaethau i law hefyd. Mae hyn yn ostyngiad o 14.9% o'r flwyddyn flaenorol, pan gofnodwyd 1,487 o ganmoliaethau. Mewn perthynas â chwynion yr Ombwdsmon, nodwyd nad oedd unrhyw achosion yn mynd ymlaen i ymchwiliad ffurfiol yn ystod cyfnod 2022/23.

Nodwyd y newid ym mhatrymau cwynion, gyda gostyngiad mewn cwynion yn ymwneud â gwastraff, a chynnydd bach o gwynion tai yn ymwneud ag ôl-groniad atgyweiriadau, mae'r gwasanaeth yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy sefydlu system ar-lein ar gyfer atgyweiriadau ymatebol.

Amlygwyd bod argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad yn gofyn am gynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn yr adroddiad Cwynion Blynnyddol. Nodwyd bod proses statudol ar wahân ar gyfer cwynion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol, fodd bynnag, bydd Swyddogion yn ystyried a ellid cynnwys ffigurau cyffredinol yn yr adroddiad blynnyddol hwn wrth symud ymlaen.

PENDERFYNWYD: nodi cynnwys yr adroddiad.

SEITHFED ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CAERDYDD

Ystyriodd y Cabinet Seithfed Adroddiad Monitro Blynnyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd. Nodwyd bod Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (2006 i 2026) wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ar 28 Ionawr 2016. Fel rhan o'r broses cynllun datblygu statudol, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynnyddol (AMB) a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.

Amlygwyd bod canfyddiadau'r seithfed AMB yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda'r mwyafrif o ddangosyddion yn cael eu dangos fel rhai gwyrdd. Mae'r adroddiadau'n nodi crynodeb o berfformiad mewn perthynas â chyflogaeth, tai (gan gynnwys tai fforddiadwy), cludiant, safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

PENDERFYNWYD: y câi seithfed Adroddiad Monitro Blynnyddol y Cynllun Datblygu Lleol ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2023.